Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

## *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***2.00 PM - DYDD MAWRTH, 4 RHAGFYR 2018***

***COMMITTEE ROOM 1/2 - PORT TALBOT CIVIC CENTRE***

**Rhan 1**

1. Datganiadau o gysylltiadau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 6)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiadau gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

4. Rhif y cais: P2018/0822 *(Tudalennau 7 - 14)*
Cadw a chwblhau sied storio ar wahân, a chynyddu uchder wal derfyn bresennol i 1.95m yn 1 Heol Commercial, Resolfen, Castell-nedd SA11 4HY

5. Rhif y cais: P2018/0395 *(Tudalennau 15 - 44)*
Adeiladu 8 annedd; cadw a chwblhau gwaith peirianneg (sy'n ymwneud â lefelau tir/adeileddau cynnal fel diwygiad i ganiatadau cynllunio cyfeirnodau P2010/0880 a P2006/1780) (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth ategol ar 28.08.18 a 28.09.18) ar dir yn agos i 40 Maes yr Ysgol, Cam 6, Parc y Dderwen, Pontardawe, Abertawe.

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

6. Apeliadau a dderbyniwyd - 25.09.18 - 26.11.18
*(Tudalennau 45 - 46)*

7. Apeliadau y penderfynwyd arnynt - 25.9.18 - 26.11.18
*(Tudalennau 47 - 48)*

8. Penderfyniadau Dirprwyedig - 25.9.18 - 26.11.18
*(Tudalennau 49 - 80)*

9. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **H.N.James**

**Aelodau:** Councillors A.R.Aubrey, S.Bamsey, R.Davies, W.F.Griffiths, S.K.Hunt, C.J.Jones, S.Pursey, A.McGrath, R.Mizen a/ac L.Jones

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi’n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu’n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy’n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.